Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN

Dyddiad: Dydd Mercher 8 Gorffennaf 2026

Amser: 12:30-13:15

Fformat: Hybrid

Lleoliad: Ystafell Giniawa 1

Presennol

Huw Irranca-Davies AS, y Llywydd a'r Cadeirydd
Kerry Ferguson AS, y Dirprwy Lywydd
Natasha Asghar AS
Sarah Rees AS
Matthew Jones AS
Iain McIntosh AS
Shav Taj AS
Huw Thomas AS

Ysgrifenyddiaeth

Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen
Elin Sutton, Swyddfa Breifat y Llywydd

AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Sam Rowlands AS
Helen Jenner AS

2. **CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Pwyllgor Gweithredol cyntaf y Gangen yn y Seithfed Senedd.

Nododd y byddai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a'i gwaith yn newydd i lawer o'r Aelodau a oedd yn bresennol. Dywedodd ei bod yn rhwydwaith pwysig ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol y Senedd a'i bod yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr iawn i ymgysylltu, dysgu a chyfnewid arferion seneddol gorau gyda chyd-seneddwyr ledled y Gymanwlad.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r nodyn briffio cefndir ar y Gymdeithas a rannwyd â nhw ac o'r ffaith bod Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn fwy na pharod i gynghori a chefnogi ein Haelodau, yn ôl yr angen.

3. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-26-01 (**DOGFEN 1**)

Cadarnhawyd bod cofnodion ein Cyfarfod Cangen diwethaf yn gofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. **<u>Cynrychiolaeth ar Bwyllgor Gweithredol Rhyngwladol y CPA</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd y cefndir i Bwyllgor Gweithredol Rhyngwladol y CPA ac eglurodd, fel y cytunwyd gan Bwyllgor Gweithredol blaenorol y Gangen, mai Natasha Asghar AS oedd cynrychiolydd dros dro'r Senedd

tan etholiad y Senedd. Diolchodd y Cadeirydd i Natasha Asghar AS am ymgymryd â'r rôl hon mor ddiwyd, gan gynnwys cadeirio Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol BIMR yn ddiweddar yn Gibraltar.

Roedd yr Aelodau'n hapus i gefnogi Natasha Asghar AS i aros yn y rôl hon fel cynrychiolydd parhaol y Senedd am weddill ein tymor 2026-28.

6. **Cynrychiolaeth ar Rwydweithiau BIMR**

Trafododd y Cadeirydd yr angen i ni enwebu Aelodau i gynrychioli'r Senedd ar rai o'n Rhwydweithiau CPA allweddol.

- ***Seneddwragedd y Gymanwlad (CWP)***

Roedd Pwyllgor Llywio Rhanbarthol y CWP yn gofyn i ni enwebu dwy Aelod –byddai'r rhain yn cael eu dewis o Bwyllgor Gweithredol y Gangen hon. Gofynnwyd i Aelodau sydd â diddordeb yn y rolau hyn anfon e-bost at Ysgrifenyddiaeth y Gangen.

Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai trefniadau - gan gynnwys cylchdroi rolau yng nghanol y tymor, os oes angen - yn cael eu hwyluso er mwyn sicrhau bod gan bawb sydd â diddordeb gyfle i wasanaethu ar y Pwyllgor Llywio.

Dywedodd Natasha Asghar AS na fyddai hi'n ceisio rôl weithredol ar Bwyllgor Llywio CWP BIMR ar gyfer tymor y Senedd hon, er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i Aelodau eraill.

- Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau (CPwD)

Nid oedd unrhyw Aelodau eto wedi mynegi diddordeb mewn cynrychioli'r Gangen ar y rhwydwaith hwn. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd yn bresennol sicrhau bod eu grwpiau plaid ehangach yn ymwybodol o'r rhwydwaith ac o'r cyfle hwn.

- LHDT+ BIMR

Nodwyd mai ein rhanbarth BIMR ni o'r CPA oedd yr unig un ar hyn o bryd â Rhwydwaith LHDT+ swyddogol ac i hwnnw gael ei lansio'r llynedd, yn y Senedd.

Yn dilyn galwad am ddatganiadau o ddiddordeb, roedd yr Aelodau'n falch o gefnogi Matthew Jones AS a Sara Crowley AS fel ein henwebiadau ar gyfer y pwyllgor llywio hwn.

7. **Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol**

- *Fforwm CPwD BIMR*
  Caeredin, yr Alban (Hybrid)
  20 Chwefror

  Wrth edrych yn ôl at rai o weithgareddau'r Gangen ers ein cyfarfod diwethaf, nododd y Cadeirydd fod y cyn-Aelod Mark Isherwood wedi cynrychioli'r Senedd yn y fforwm cychwynnol ar gyfer Seneddwyr ag Anableddau yn ein Rhanbarth, a gynhaliwyd gan Senedd yr Alban. Roedd y Fforwm yn cynnwys sesiynau ar bwysigrwydd cynyddu cynrychiolaeth pobl ag anableddau yn ein seneddau yn ogystal â manteision archwiliadau hygyrchedd.

- *Ymweliad Dr David Wilson, Clerc Senedd Seland Newydd*
  9 Mehefin

  Roedd y Llywydd yn falch o gyfarfod â David Wilson, Clerc Senedd Seland Newydd, fel rhan o'i raglen ym mis Mehefin, a oedd yn cynnwys sesiynau ar amrywiaeth o faterion o'n gwaith pwyllgora i sut rydym yn gweithio'n ddwyieithog.

- *55ed Cynhadledd BIMR*
  Gibraltar
  17-20 Mehefin

  Er mor fuan ar ôl ein hetholiad diweddar, roedd y Senedd yn gallu anfon dirprwyaeth lawn (Natasha Asghar AS, James Evans AS, Matthew Jones AS a Shav Taj AS) i Gynhadledd Ranbarthol y CPA, a gynhaliwyd gan Senedd Gibraltar. Roedd ein Cangen yn un o'r 10 Cangen CPA a aeth i'r Gynhadledd, lle ymdriniwyd â nifer o bynciau, gan gynnwys:

  - *defnyddio technoleg ddigidol a Deallusrwydd Artiffisial mewn Seneddau,*

- gwydnwch economaidd mewn awdurdodaethau bach,
- hyrwyddo cynhwysiant mewn Seneddau ar gyfer unigolion LHDT+,
- dysgu gwersi oddi wrth Seneddau Ieuenctid.

Byddai adroddiad swyddogol gan Ysgrifenyddiaeth BIMR yn cael ei lunio a'i rannu maes o law.

- *Cyfarfod Pwyllgor Llywio CWP BIMR*
  Rhithwir
  6 Gorffennaf

  Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf Pwyllgor Llywio Rhanbarthol y Seneddwragedd ychydig ddyddiau ynghynt. Roedd Natasha Asghar AS yn bresennol a dywedodd i'r cyfarfod drafod y cynllun mentora arfaethedig yn ogystal â'r holiadur ar gyfer Aelodau sy'n sefyll i lawr. Rhoddodd Natasha Asghar AS ddiweddariad byr i'r Pwyllgor Llywio ar etholiadau diweddar y Senedd a nododd y byddai Cawcws Menywod newydd y Senedd yn cael ei sefydlu'n fuan.

8. ***BLAENGYNLLUNIO***

<u>Cyfarfodydd, Ymweliadau, Digwyddiadau a Chynadleddau arfaethedig</u>

- *Digwyddiad ac etholiad Rhwydwaith LHDT+ BIMR.*
  Rhithwir
  13 Gorffennaf

  Byddai'r cyfarfod rhithwir hwn yn gweld ein Rhanbarth yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeiryddion LHDT+. Byddai datganiadau'r ymgeiswyr yn cael eu dosbarthu'r diwrnod canlynol.

  Byddai'r sesiwn hefyd yn cynnwys trafodaeth panel ar waharddiadau therapi trosi, gan roi cyfle i rannu profiadau o bob cwr o'r rhanbarth, gan gynnwys safbwyntiau o awdurdodaethau lle mae gwaharddiadau wedi bod ar waith ers 2016.

- *Ymweliad gan Ddirprwyaeth dan arweinyddiaeth y Llefarydd o Senedd Seland Newydd*
  16 Gorffennaf

Nododd y Cadeirydd fod y Senedd yn falch iawn o groesawu'r ddirprwyaeth dan arweinyddiaeth y Llefarydd o Senedd Seland Newydd, y gyntaf y gwyddys amdani, yr wythnos ganlynol.

Fel rhan o'r rhaglen, byddai'r Llywydd yn cynnal cinio anffurfiol yn yr Oriel i'r ddirprwyaeth gyda Chadeiryddion newydd Pwyllgorau'r Senedd, gyda chroeso hefyd i Aelodau Pwyllgor Gweithredol y Gangen gymryd rhan.

- *Senedd Ieuenctid y Gymanwlad (CYP)*
  Sydney, De Cymru Newydd
  27-31 Gorffennaf

  Unwaith eto, roedd y Senedd wedi llwyddo i sicrhau lle yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, a gynhelir bob dwy flynedd, ac, yn dilyn proses gystadleuol dan arweiniad hen Gangen CPA y Senedd, dewiswyd Qahira Saha i gynrychioli'r Senedd yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, a gynhaliwyd gan Senedd De Cymru Newydd yn Sydney.

  Mae Qahira, menyw ifanc o Gaerdydd sy'n astudio ym Mhrifysgol Leeds ar hyn o bryd, yn gyn-Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Qahira yn Sydney ac roedd y Gangen yn edrych ymlaen at glywed mwy ganddi ac at ddarllen ei hadroddiad maes o law.

- *69ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad*
  Cape Town, De Affrica
  13-18 Medi

  Byddai cynhadledd eleni – cynhadledd gyffredinol flynyddol y CPA – yn cael ei chynnal yng Cape Town ym mis Medi.
  Yn ogystal â'n lle ar y Pwyllgor Gweithredol, cawsom le i un cynrychiolydd hefyd.

  Esboniodd y Llywydd fod gan y Senedd berthynas ddwyochrog bwysig â Senedd Daleithiol y Western Cape, yn Cape Town, ac roedd yn falch o glywed bod Llefarydd Talaith y Western Cape wedi estyn gwahoddiad i'n dirprwyaeth ar gyfer rhaglen fer a chyfarfodydd, ar gyrion y gynhadledd ehangach.

Roedd yr Aelodau a oedd yn bresennol yn falch o gefnogi'r Llywydd i fynd fel Cynrychiolydd y Senedd.

Ôl-nodyn:
Oherwydd Busnes y Senedd, ni fu modd i'r Llywydd gymryd rhan yn y CPC wedi'r cyfan. Hysbysebwyd Aelodau Pwyllgor Gweithredol y Gangen o'r cyfle a dewiswyd Shav Taj AS i fynd fel ein Cynrychiolydd Pleidleisio.

- *Gweithdy Seneddwragedd y Gymanwlad*
  Nadi, Ffiji
  9-13 Tachwedd

  Roedd Ysgrifenyddiaeth y CPA wedi cadarnhau y byddai Gweithdy nesaf y CWP yn cael ei gynnal gan Senedd Ffiji ym mis Tachwedd. Thema'r Gweithdy fyddai '*Hyrwyddo Seneddau sy'n Ymatebol o ran Rhywedd: Offer ar gyfer Craffu, Goruchwyliaeth a Diwygio'*.

  Cytunodd yr Aelodau y dylem wneud cais am un o'r lleoedd yn y gweithdy. Byddai Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb ac achosion busnes. Byddai'r cyfle yn agored i *bob* Aelod o'r Senedd sy'n fenyw.

- *Hyfforddiant Arsylwi Etholiadau CPA BIMR*
  Senedd yr Alban
  22-23 Tachwedd

  Yn olaf, nododd y Cadeirydd ein bod wedi cael gwahoddiad i anfon hyd at ddau Aelod ar gwrs Hyfforddiant Arsylwi Etholiadau BIMR, a gynhelir gan Senedd yr Alban, yn Holyrood.

  Mae'r hyfforddiant hwn yn orfodol i Aelodau sydd am wneud cais i gymryd rhan mewn cenadaethau BIMR i arsylwi ar etholiadau a gynhelir mewn Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron Brydeinig neu Diriogaethau Tramor Prydain.

  Nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i'n Cangen gael Aelodau newydd yn y garfan sy'n gallu ymgymryd â Chenhadaeth Arsylwi ar Etholiadau yn y dyfodol ac felly anogodd y rhai a oedd yn bresennol i wneud cais ar gyfer y cwrs hyfforddi.

9. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

10. **DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL:**

21 Hydref 2026

DIWEDD